


Cofnodion coll



**Hawdd ei
Ddarllen**

Cynnwys



3 Cyflwyniad



4 Cadw cofnodion iawn



7 Sut y dylid cadw cofnodion



10 Pan fydd cofnod wedi'i golli



12 Rhai enghreifftiau



15 Beth ddylai ddigwydd



17 Am fwy o wybodaeth

Cyflwyniad



Adroddiad gan **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC)** yw hwn.



Mae'n sôn am y problemau sy'n digwydd pan fydd cyrff iechyd a gofal cymdeithasol heb gadw cofnodion iawn, neu wedi colli cofnodion.



Mae **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC)** yn sefydliad annibynnol sy'n delio â chwynion am **wasanaethau cyhoeddus** y cyrff canlynol:



- Cyngorau lleol
- Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG)
- Cymdeithasau tai
- Llywodraeth Cymru



Gwasanaeth cyhoeddus yw gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu gan gorff sy'n rhan o'r llywodraeth.

Cadw cofnodion iawn



Cofnodion

Mae eich cofnod iechyd a gofal cymdeithasol yn cofnodi:




- Eich gwybodaeth bersonol



- Gwybodaeth am eich iechyd



- Y gwahanol wasanaethau a thriniaethau rydych chi wedi'u cael



Dylai eich cofnod gynnwys gwybodaeth am eich gofal iechyd a chymdeithasol ers nifer o flynyddoedd.



Efallai y bydd eich cofnod yn cynnwys ffotograffau a fideo.



Gall cofnodion fod ar bapur neu gyfrifiadur.

Sicrhau bod gwybodaeth ar gael



Mae'n bwysig bod meddygon, gweithwyr iechyd a gweithwyr gofal yn gallu gweld eich cofnod yn ddidrafferth a heb oedi.

Maen nhw angen hyn er mwyn gallu rhoi'r cymorth iawn i chi yn syth.



Cofnod o beth ddigwyddodd

Dylai eich cofnod iechyd a gofal cymdeithasol gynnwys gwybodaeth am yr hyn sydd wedi digwydd i chi.



Dylai egluro pa feddygon, gweithwyr iechyd a gweithwyr gofal sydd wedi gweithio gyda chi.

Dylai eich cofnod egluro beth mae gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol wedi'i wneud i'ch helpu chi.



Pan fydd pethau'n mynd o chwith

Mae eich cofnod yn bwysig iawn os bydd rhywbeth yn mynd o'i le gyda'ch gofal iechyd neu gymdeithasol.



Bydd eich cofnod yn ein helpu ni i weld beth sydd wedi digwydd i achosi i bethau fynd o chwith.

Sut y dylid cadw cofnodion



Mae'r gyfraith yn dweud bod rhaid cadw cofnodion pobl yn ddiogel er mwyn sicrhau:

- Nad ydyn nhw ddim yn cael eu colli



- Nad ydyn nhw ddim yn cael eu difrodi neu eu chwalu



- Na all neb newid unrhyw gofnodion heb ganiatâd priodol



Mae GIG Cymru'n dweud:


- Dylid cadw cofnodion iechyd yn ddiogel yn swyddfeydd, ysbytai neu glinigau'r GIG



- Dylai'r cofnod gynnwys nodyn o bob tro y mae rhywun wedi:
- Ychwanegu rhywbeth at y cofnodion



- Symud y cofnodion




- Newid unrhyw beth am y cofnod



- Dylai cofnodion gael eu rhoi'n ôl yn y lle iawn pan fydd y meddyg wedi gorffen gyda nhw



- Dylid gofalu'n iawn am wybodaeth:
- Pan fydd rhan o gofnod yn cael ei chymryd allan o'r prif gofnod



- Pan fydd cofnodion yn cael eu cymryd allan o'r sefydliad



Rydyn ni'n credu y dylai fod gan bob corff iechyd a gofal cymdeithasol ffyrdd da a phriodol o ofalu am gofnodion.



Dylid llunio rheolau hefyd a mynnu bod staff yn eu dilyn ynglŷn â gofalu am gofnodion.

Pan fydd cofnod wedi'i golli



Yn swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, rydyn ni wedi gorfod delio â chwynion lle mae'r cofnodion iechyd a gofal cymdeithasol wedi mynd ar goll.



Os bydd rhywun yn gwneud cwyn, a bod y cofnod wedi'i golli, mae'n golygu:



- Na all y corff iechyd neu ofal cymdeithasol ymchwilio i'r gŵyn yn iawn



- Bydd y sawl sy'n gwneud y gŵyn yn dal i fod yn anhapus



- Efallai y bydd y sawl sy'n gwneud y gŵyn yn meddwl bod y meddygon yn ceisio cuddio rhywbeth



- Fyddwn ni yn swyddfa'r Ombwdsmon ddim yn gallu ymchwilio i'r gŵyn yn iawn chwaith



- Weithiau bydd y sawl sy'n gwneud y gŵyn yn cael gwybodaeth anghywir am fod yr wybodaeth gywir wedi mynd ar goll.

Rhai enghreifftiau



Cwyn gan Mrs N

Aeth Mrs N i gyfarfod gyda meddyg i siarad am y driniaeth a gafodd ei thad cyn marw.



Ond roedd y meddyg wedi dod â'r cofnodion anghywir i'r cyfarfod ac roedd yn siarad am glaf gwahanol.

Roedd cofnodion tad Mrs N wedi mynd ar goll.



Cwyn gan Mr W


Gofynnodd Mr W am gael gweld copi o'i gofnodion iechyd ei hun.

Ond fe wnaethon nhw anfon cofnodion iechyd rhywun arall ato.



Cwyn gan Mr H a Mrs X

Roedd Mr H a Mrs X eisiau siarad am y driniaeth a gafodd eu rhiant cyn marw.



Bu raid iddyn nhw aros 3 mis cyn cael ateb, am fod y cofnodion wedi cael eu colli.



Cwyn gan Mrs L

Gofynnodd Mrs L sawl gwaith am gael gweld cofnodion ei mam wedi iddi farw.



Ar ôl 3 mis, dywedodd yr ysbyty wrthi fod y cofnodion ar goll.



Cwyn gan Mrs AB

Cwynodd Mrs AB am gartref gofal.

Atebodd y cartref gofal rai o'r pwyntiau, ond nid pob un.




Aeth amser maith heibio cyn iddyn nhw gyfaddef nad oedden nhw'n gallu ateb y pwyntiau i gyd am fod y cofnodion wedi'u colli.



Cwyn gan Mrs S

Roedd y bwrdd iechyd yn methu edrych ar y cofnodion am eu bod nhw ar goll.



Yn lle hynny, fe atebon nhw'r gŵyn gan ddibynnu ar yr hyn y gallai'r meddygon ei gofio.



Cwyn gan Mrs F

Dyweddodd y bwrdd iechyd nad oedden nhw'n cytuno â chwyn Mrs F.



Ond doedden nhw ddim wedi edrych i mewn i'r mater yn iawn am eu bod nhw wedi colli'r cofnodion.

Beth ddylai ddigwydd



Rydyn ni'n credu y dylai sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol:

- Sicrhau bod ffordd i wybod ble mae cofnod ar unrhyw adeg



- Sicrhau bod pob aelod staff wedi cael hyfforddiant ar sut i ofalu am gofnodion yn iawn



- Sicrhau trefn briodol ar gyfer riportio a chwilio am ffeiliau sydd wedi'u rhoi yn y lle anghywir



- Edrych ar sut y maen nhw'n dweud wrth bobl a'r **Comisiynydd Gwybodaeth** pan fydd cofnod ar goll



- Sicrhau eu bod nhw'n dysgu oddi wrth achosion lle cafodd cofnodion eu colli. Dylent feddwl am ffyrdd i sicrhau na chaiff cofnodion eu colli yn y dyfodol




Y Comisiynydd Gwybodaeth yw'r rhan o'r llywodraeth sy'n cadw golwg i sicrhau bod cofnodion yn cael eu cadw'n ddiogel

Am fwy o wybodaeth



Os hoffech gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â ni:



Ffôn:

0300 790 0203



Ebost:

holwch@ombwdsmon.cymru



Post:

**Ombwdsmon Gwasanaethau
Cyhoeddus Cymru, 1 Ffordd yr Hen
Gae, Pencoed CF35 5LJ**

Darllen Hawdd gan easy-read-online.co.uk